

Prif Ffrydio Neges Twf i Waith Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd

Adroddiad ar gyfer

Bwrdd yr Iaith Gymraeg



gan

Gwerfyl Roberts¹
Yr Athro Fiona Irvine²
Heledd Owen¹

¹Prifysgol Bangor

²Prifysgol Liverpool John Moores



Mawrth 2010

Cynnwys

1. Rhagarweiniad
2. Briff y Project
3. Golwg Cyffredinol ar Gynllun Twf
4. Adolygiad o Bolisiau a Llenyddiaeth
5. Arolwg o Fudd- ddeiliaid
6. Adolygiad Cwricwlwm
7. Adolygiad Safonau Gwasanaeth
8. Fframwaith Strategol
9. Ymateb y Llywodraeth a Chyrff Proffesiynol
10. Cyfeiriadau

Atodiadau

1. Twf ac Ymlaen: Asesiad Effaith a'r Ffordd Ymlaen
2. Cyfraniad Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd at Hyrwyddo Cynnal Iaith rhwng Cenedlaethau mewn Cyd-destun Dwyieithog: Canfyddiadau Rhieni a Gweithwyr Proffesiynol ym Maes Iechyd (Tranter et al 2010)
3. Rhaglen Waith
4. Cysylltu Neges Twf yn ôl Safonau'r NMC a'r QAA
5. Cynnig i Ymgorffori Amcanion Twf yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (LICC 2004)
6. Cyflwyniad i Ddarlithwyr SCPHN 27 Tachwedd 2009
7. Grwpiau Budd-ddeiliaid

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Mae amrywiaeth cynyddol yn y byd a statws uwch llawer o ieithoedd lleiafrifol brodorol wedi amlygu manteision lluosog dwyieithrwydd i unigolion a'u cymunedau (Tabl 1). Mae'r nodweddion hyn yn chwarae rhan allweddol mewn sbarduno cynlluniau caffael iaith yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar hybu trosglwyddo iaith yn y teulu.
- 1.2. Trwy fenter a gyllidir gan y llywodraeth, sefydlwyd cynllun Twf yn 2001 i gynyddu nifer y teuluoedd dwyieithog sy'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Mae Twf yn canolbwyntio ar danlinellu gwerth yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd i rieni, darpar rieni a'r boblogaeth yn gyffredinol; ac annog teuluoedd i fagu eu plant yn y ddwy iaith. Mae Twf yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu dwyieithrwydd yn gynnar a defnyddio Cymraeg yn y cartref.
- 1.3. A hwy'n weithwyr proffesiynol uchel eu parch yn y gymuned, mae'n bosib i fydwragedd ac ymwelwyr ieched fod yn asiantau credadwy i gynllun Twf trwy eu cyswllt rheolaidd â'r holl ddarpar rieni a rhieni newydd. Gyda hyn mewn golwg, bwriad Twf yw dod â neges manteision dwyieithrwydd i waith prif ffrwd bydwragedd ac ymwelwyr ieched.
- 1.4. Serch hynny, mae adroddiad asesiad effaith manwl diweddar (Irvine et al 2008) (gweler y Crynodeb Gweithredol yn Atodiad 1) yn mynegi pryderon ynghylch gallu Twf i ddylanwadu ar waith y sector ieched. Ar ben hynny, mae'r ymchwil yn dangos, er bod rhyw fesur o ymrwymiad ymysg bydwragedd ac ymwelwyr ieched i ledaenu adnoddau Twf, fod difaterwch cyffredinol ynghylch trafod trosglwyddiad iaith gyda rhieni a diffyg dealltwriaeth, yn enwedig ymysg ymwelwyr ieched, o berthynas y neges â'u swyddogaeth ieched cyhoeddus (Tranter et al 2010) (gweler Atodiad 2).
- 1.5. O gofio bod Twf yn dibynnu ar gydweithredu â gweithwyr proffesiynol gofal ieched fel ffordd o ledaenu ei neges, comisiynwyd project pellach gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn sefydlu cynlluniau strategol ar gyfer cymhathu neges Twf i waith prif ffrwd ymwelwyr ieched a bydwragedd. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sefyllfa bresennol menter Twf yn y sector ieched ac yn canfod ffyrdd newydd o gymhathu neges Twf trwy ymdrechion strategol sy'n cymryd i ystyriaeth ddatblygiadau ar lefel ymarfer, polisi, addysg ac ar y lefel statudol.

Tabl 1: Manteision dwyieithrwydd

Mantais	Tystiolaeth
Diwylliannol	Baker a Prys Jones (1998); Edwards (2003)
Gwybyddol	Bialystok (1991); Bialystok et al (2005); Genesee (2003)
Cymeriad	Genesee et al (1975); Ben-Zeev (1977)
Cwricwlwm	Baker (2003); Cummins (2003)
Arian a Gyrfa	Aitchison a Carter (2004)
Cymuned	Gibson (2007)


2. Briff y Project

2.1. Yn unol â'r briff a gomisiynwyd, amcan y project oedd gweithredu pedwar argymhelliad cyntaf Twf ac Ymlaen: Asesiad Effaith a'r Adroddiad Ffordd Ymlaen (Irvine et al, 2008) fel a ganlyn:

1. Egluro swyddogaeth iechyd cyhoeddus ymwelwyr iechyd a bydwagedd mewn perthynas â chefnogi trosglwyddo'r iaith Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru.
2. Ceisio cyfarwyddedau statudol gan y llywodraeth a chan gyrff proffesiynol i gynnal safonau ymwelwyr iechyd a bydwagedd wrth iddynt ymaelodi â'r gofrestr mewn perthynas â'u swyddogaeth yn cefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yng Nghymru.
3. Canfod a gwarchod cyfleoedd yn y cwricwla bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd i gyflwyno a gwella ymwybyddiaeth iaith a rhaglenni hyfforddi cynllun Twf.
4. Creu swyddogaeth newydd o fewn sefydliadau gofal iechyd ar gyfer ymwelwyr iechyd a bydwagedd a neilltuwyd i gynllun Twf.

Manylir ar bwyntiau gweithredu'r project yn Atodiad 3 a'u crynhoi yn Ffigwr 1 isod.

Ffigwr 1: Cynllun ar gyfer datblygu fframwaith strategol i gymhathu neges Twf i'r sector iechyd



3. Golwg Cyffredinol ar Gynllun Twf

- 3.1. Sefydlwyd cynllun Twf er mwyn cynyddu nifer y teuluoedd dwyieithog sy'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.
- 3.2. Ers cyflwyno'r cynllun peilot yn 1998/99 mae cynllun Twf wedi ei reoli a'i gyllido gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ers Mai 2001 bu Cwmni Iaith Cyf, asiantaeth cynllunio iaith, yn gwneud y gwaith maes ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei hun yn delio â holl agweddau eraill y project.
- 3.3. Nod strategol cynllun Twf yw hybu trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu, ac mae'r amcanion presennol, a sefydlwyd yn 2007, fel a ganlyn:
 1. Cydweithredu â bydwragedd ac ymwelwyr ieched fel y gallant gyfleu neges Twf i'r boblogaeth darged
 2. Codi ymwybyddiaeth ymysg rhieni, darpar rieni a'r cyhoedd yn gyffredinol o werth cyflwyno'r Gymraeg yn y cartref, gwerth dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Prif dargedau Twf yn hyn o beth yw darpar rieni a rhieni gyda babanod o dan 6 mis oed.
- 3.4. Prif gynulleidfa darged Twf yw teuluoedd cymysg eu hiaith, lle mae un rhiant yn unig yn siarad Cymraeg. Serch hynny, bwriad Twf yw rhannu'r neges am werth dwyieithrwydd â grwp mor amrywiol â phosib o rieni.
- 3.5. Nid yw Twf yn gweithio ar ei ben ei hun. Yn hytrach mae'n dibynnu ar gydweithredu gyda dau brif bartner, sef gweithwyr proffesiynol gofal ieched a chyrrff blynyddoedd cynnar. Credir mai ymwelwyr ieched a bydwragedd yw'r allwedd i lwyddiant cynllun Twf oherwydd rhyngddynt maent yn dod i gysylltiad â'r holl ddarpar rieni a rhieni newydd yng Nghymru. Felly gallant gyfleu neges Twf i rieni'r holl blant dan oed ysgol.
- 3.6. Mae cynllun Twf yn targedu pob darpar rhiant a phob rhiant i faban o dan 6 mis oed trwy rwydwaith swyddogion maes Twf, sydd yn canolbwyntio'n bennaf ar annog rhieni i drosglwyddo'r iaith o fewn y cartref. Er bod bron pob mam newydd yng Nghymru'n derbyn gwybodaeth am gynllun Twf ynghylch magu plant yn ddwyieithog, trwy'r pecynnau Bounty, mae swyddogion maes Twf yn fwyaf gweithgar yn yr ardaloedd canlynol: Ynys Môn, Dwyfor ac Eifionydd, Arfon, Conwy, Ogwen, Sir Ddinbych, Sir Drefaldwyn, Ceredigion, Preseli, De Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Brycheiniog, Cwm Tawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, a Chaerffili; hynny yw, yr ardaloedd yng Nghymru lle byddai'n bosib i nifer uwch drosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y cartref.
- 3.7. Lledaenir neges Twf trwy gyfrwng swyddogion maes Twf, swyddogion ieched Twf neu weithwyr proffesiynol gofal ieched sy'n cwrdd â'r rhieni wyneb yn wyneb; a thrwy gyfrwng dulliau ac adnoddau marchnata a gynhyrchir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cynhyrchir y deunyddiau canlynol ar hyn o bryd: Chwe Rheswm Da (taflen wybodaeth a phoster); Dewch i ddarllen (taflen wybodaeth); cerdyn sgan; cerdyn post; cerdyn llongyfarch; sticer car; bwletinau; crynoddig 1; calendar Twf; llyfr lliwio Twf; a bib Twf.

4. Adolygiad o'r Polisiau a'r Llenyddiaeth

Mae cydweithrediad ymwelwyr iechyd a bydwagedd yn allweddol i gyfleu neges Twf gan eu bod yn gweithio gydag unigolion a chymunedau. Ar ben hynny, o ystyried manteision amrywiol dwyieithrwydd, mae cefnogi trosglwyddo iaith yn y teulu yn adlewyrchu eu cyfraniad cynyddol ym maes iechyd cyhoeddus tuag at hybu lles y teulu a'r gymuned. Felly er mwyn cael gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, yn enwedig ymwelwyr iechyd, i gyfrannu at ledaenu neges Twf, mae angen i'r cynllun gymryd i ystyriaeth eu swyddogaeth iechyd cyhoeddus unigryw a'r sbardunwyr polisi sy'n llywio eu hymarfer.

4.1. Iechyd Cyhoeddus

4.1.1. Diffinnir iechyd cyhoeddus gan Wanless (2004) fel:

“... the science and art of preventing disease, prolonging life and promoting health through organized efforts and informed choices of society, organizations, public and private, communities and individuals.” (Wanless 2004)

4.1.2. Dehonglir hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2005) fel:

- cefnogi cyfraniad dinasyddion at hybu eu hiechyd, yn unigol ac ar y cyd
- datblygu cyfraniad cymunedau lleol at greu a chynnal iechyd.

4.1.3. Mae LICC (2005) yn mynnu bod iechyd gydol oes yn canolbwyntio ar iechyd a lles, nid ar afiechyd, trwy ddefnyddio pob cyfrwng i hyrwyddo cymunedau iach a grymuso unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain.

4.1.4. Mae defnyddio'r adnoddau hyn trwy berthynas o ymddiriedaeth a rhwydweithiau cefnogol yn gallu helpu i adeiladu ymdeimlad o berthyn mewn cymunedau a hynny'n cyfrannu at ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a gwelliant cyffredinol mewn iechyd (Cowley 2010; Gibson 2007).

4.1.5. O gofio arwyddocâd iaith fel cyfrwng hunaniaeth ac integreiddio, gall hyrwyddo dwyieithrwydd yn y cartref hybu datblygiad grwpiau cymdeithasol cydlynol a hynny'n ei dro'n cael effaith gadarnhaol o ran cynyddu cyfalaf cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus.

4.1.6. Ar y sail hon ac o gofio effaith gadarnhaol dwyieithrwydd ar benderfynyddion ehangach iechyd, mae'n amlwg bod cyfleu neges Twf trwy roi grym i rieni i godi eu plant yn ddwyieithog a hyrwyddo cymunedau dwyieithog yn fater iechyd cyhoeddus.

4.1.7. Mae i hyn oblygiadau neilltuol mewn perthynas ag ymwelwyr iechyd a gydnabyddir fel “gweithwyr iechyd cyhoeddus yng nghyfanrwydd eu swyddogaeth.” (SNMAC 1995, tudalen 20)

4.2. Ymwelwyr Iechyd

4.2.1. Isod ceir diffiniad o waith ymwelwyr iechyd:

“...planned activities aimed at the promotion of health and prevention of ill health. It therefore contributes substantially to individual and social well-being by focussing attention at various times on either an individual, a social group or a community.” (CETHV 1977: 8)

4.2.2. Mae'r pedair egwyddor sy'n sail i ymarfer proffesiynol ymwelwyr iechyd (CETHV 1977: 9) yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer adeiladu iechyd cyhoeddus, hynny yw:

1. Chwilio am anghenion iechyd
2. Ysgogi ymwybyddiaeth o anghenion iechyd
3. Dylanwad ar bolisiau sy'n effeithio ar iechyd
4. Hwyluso gweithgareddau gwella iechyd

4.2.3. O gofio manteision iechyd cymdeithasol, diwylliannol, seicolegol ac economaidd dwyieithrwydd ar gyfer unigolion a'u cymunedau, mae i'r egwyddorion hyn arwyddocâd arbennig ar gyfer ymwelwyr iechyd mewn perthynas â'u cyfraniad at ledaenu neges Twf a chefnogi trosglwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn y teulu.

4.2.4. Er enghraifft, mae ail egwyddor ymwelwyr iechyd yn ymwneud â helpu pobl i fod yn ymwybodol o'r hyn y gellid ei gyflawni mewn ymdrech i wella eu hiechyd personol neu iechyd y gymuned. Mae lledaenu neges Twf yn uniongyrchol i unigolion a chymunedau'n ysgogi ymwybyddiaeth o'u hanghenion iechyd mewn perthynas â dwyieithrwydd; ar yr un pryd mae estyn y neges i gomisiynwyr a gwneuthurwyr polisi'r gwasanaeth iechyd yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar bolisiau sy'n effeithio ar ddwyieithrwydd ac yn hwyluso gweithgareddau dwyieithog sy'n gwella iechyd.

4.2.5. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ymdrechion llywodraeth y DU wedi canolbwyntio ar foderneiddio swyddogaethau nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn y gymuned ac mewn gofal sylfaenol (Adran Iechyd 1999a; Adran Iechyd 1999b). Mae hyn wedi arwain at gadarnhau swyddogaeth iechyd cyhoeddus ymwelwyr iechyd gan symud i ffwrdd o ddull ymarfer unigolyddol a chanolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd ehangach.

“We are encouraging all health visitors to develop a family-centred public health role, working with individuals, families and communities to improve health and tackle inequalities. Health visitors need to work in new ways, across traditional boundaries and with other professionals and voluntary workers.” (Adran Iechyd 1999a, tud. 61).

4.2.6. Felly mae ymateb yn gadarnhaol i Twf a negeseuon iechyd cyhoeddus eraill trwy fentrau cydweithredol yn adlewyrchu byrdwn polisiau iechyd cyfoes ac ymrwymiad proffesiynol cryfach ymysg ymwelwyr iechyd a nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol i:

“... partnership working that cuts across disciplinary, professional and organisational boundaries that impact on organised social and political policy to influence the determinants of health and promote the health of whole populations.” (NMC 2008)

4.2.7. Mae'r pwyslais ar gymuned wedi ysgogi ymwelwyr iechyd i fabwysiadu arferion gweithio yn ymwneud â datblygu cymunedol, sy'n pwysleisio dull gweithredu cyfannol ac sy'n cydnabod pwysigrwydd grymuso unigolion a chymunedau er mwyn gwella iechyd a lles (Craig 2000). Mae datblygu cymunedol mewn iechyd yn cynnwys:

“... a commitment to a holistic approach to health which recognises the central importance of social support and social networks. A community way of working attempts to facilitate individual and collective action around common needs and

concerns. These concerns and needs are identified by people themselves, rather than being imposed from outside.”(Adams 1989)

- 4.2.8. Mae ymwelwyr iechedd felly mewn sefyllfa dda i gyfleu neges Twf yn effeithiol i unigolion a chymunedau. Yn ogystal, ceir tystiolaeth i awgrymu y gellir hybu iechedd unigolion yn fwy effeithiol pan fydd hynny wedi ei gefnogi gan ddull datblygu cymunedol (Doyle a Thomas 1996; Hoskins 2000).
- 4.2.9. Serch hynny, er gwaethaf datblygiadau o'r fath, mae diffiniadau swyddi ymwelwyr iechedd yn aneglur (Carr 2000; Craig 2000) ac mae tensiynau'n codi wrth droi polisi'n ymarfer (Bryan et al 2009). Mae hyn wedi arwain at frwydr barhaus i ymarferwyr rhwng eu hymarfer gydag unigolion a'u gwaith gyda chymunedau a phoblogaethau (Molloy & Caraher 2000; Carr 2005; Watkins & Joonum 2010); a llai o sylw'n cael ei roi i ymdrechion cymunedol i wella iechedd teuluoedd (Perkins 1998; Elkan 2000, Hogg and Hanley 2008). O gofio am y ffordd y mae cynllun Twf yn cysylltu unigolion â'u cymunedau, mae cyfle i Twf roi cyfleoedd a chefnogaeth sylweddol i ymwelwyr iechedd i wella eu gwaith datblygu cymunedol a mynd i'r afael â phenderfyniadau ehangach iechedd ar yr un pryd.
- 4.2.10. Mewn adolygiad o ymwelwyr iechedd yng Nghymru (Clark et al 2000) nodwyd bod y gwasanaeth ar ddechrau'r mileniwm yn ‘... under-developed, under-managed and under-resourced’ (tudalen 36). Ar ben hynny, cynghorwyd ad-drefnu'r gwasanaeth er mwyn cefnogi'r tair swyddogaeth ganlynol:
- Gwasanaeth ymwelwyr iechedd cyffredinol ar gyfer teuluoedd gyda phlant
 - Gwasanaeth iechedd cyffredinol i grwpiau penodol a nodir trwy asesu anghenion e.e. yr henoed
 - Swyddogaeth datblygu iechedd cyhoeddus a'r gymuned
- 4.2.11. O gofio am yr adolygiad o ymwelwyr iechedd yng Nghymru a gynhelir cyn hir ac argymhellion Astudiaeth Asesiad Effaith Twf (Irvine et al 2008), mae'r amser wedi dod i ystyried swyddogaeth ddynodedig newydd ar gyfer ymwelwyr iechedd sy'n cyfuno'r cyfrifoldebau iechedd cyhoeddus a datblygu cymunedol gyda rhai arbenigol Twf.
- 4.2.12. Ar lefel arall, mae'r Adran Iechedd (2007) yn argymhell bod ymwelwyr iechedd yn canolbwyntio eu gwaith ar ymyrryd cynnar, gwaith atal a hybu iechedd i blant ifanc a theuluoedd lle credir bod eu sgiliau cyhoeddus a'u gwybodaeth yn cael yr effaith fwyaf. O gofio mai plant ifanc a theuluoedd yw prif gynulleidfa darged y cynllun Twf, mae ei amcanion wrth hyrwyddo dwyieithrwydd yn gwbl gydnaws ag elfennau craidd gwaith ymwelwyr iechedd fel y'u hamlinellir yn Nhabl 2.

Tabl 2: Alinio neges Twf gydag elfennau craidd gwaith ymwelwyr iechyd

Elfennau craidd gwaith Ymwelwyr Iechyd (Adran Iechyd 2007)	Hyrwyddo neges Twf
Iechyd cyhoeddus a nyrsio	Ymgymryd â mentrau sy'n canolbwyntio ar y teulu a'r gymuned
Gweithio gyda'r teulu oll	Ystyried amrywiaeth iaith o fewn teuluoedd
Ymyrryd cynnar ac atal	Dechrau cefnogaeth yn ystod y cyfnod cyn y geni
Gwerth adnabod y gymuned a 'bod yn lleol'	Sefydlu proffil iaith cymuned
Mynd ati i hybu iechyd ac atal afiechyd	Hyrwyddo buddiannau dwyieithrwydd cynnar
Cyffredinoli Cynyddol	Cysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd
Diogelu Plant	Amddiffyn hawliau plant i dwf personol trwy ddwyieithrwydd
Gwerth gweithio ar draws ffiniau sefydliadau	Cydweithredu gyda chyrrff blynyddoedd cynnar dwyieithog.
Gwaith tîm a phartneriaeth	Gweithio mewn partneriaeth gyda swyddogion Twf
Parodrwydd i ddarparu gwasanaeth amddiffyn iechyd	Amherthnasol
Ymweld â chartrefi	Teilwra cefnogaeth at anghenion unigol

4.2.13. Er bod Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Nyrsio a Bydwreigiaeth (SNMAC 1995) wedi datgan bod yr holl nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd â chyfraniad i'w wneud i iechyd y cyhoedd, mae polisiau diweddar yn rhoi sylw cynyddol i swyddogaeth bydwagedd cymunedol a'u gwaith fel ymarferwyr iechyd cyhoeddus.

4.3. Bydwreigiaeth

4.3.1 Mae bydwagedd yn dod i gyswllt â phobl ar adegau allweddol yn eu bywydau ac mae hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i hybu iechyd. (Adran Iechyd 1999a) Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r project Twf lle mae darpar rieni yn brif gynulleidfa darged i neges Twf ynghylch gwerth sefydlu dwyieithrwydd yn gynnar.

4.3.2 Mae nifer o feysydd polisi cenedlaethol allweddol yn cydnabod yr angen am ganolbwynt iechyd cyhoeddus cynyddol i waith bydwreigiaeth (Adran Iechyd 1999a; Adran Iechyd 1999b):

“Midwifery is a profession already embedded in the ethos of public health. As midwives we should be contributing to improving public health ... acknowledging that childbirth is a transformative life event for the whole family.” (Adran Iechyd 2001)

4.3.3 Hefyd:

“Midwives cannot focus solely on the clinical aspects of the pregnant woman and her unborn baby if they are to make an impact on their health... pregnancy (should not) be

viewed in isolation from other important factors that influence health and outcome. Although pregnancy and the perinatal period are relatively short, they provide a window of opportunity ... this puts midwives in a unique position to promote public health.” (Adran Iechyd 2003, 17)

4.3.4 Mae'r sbardun polisi cryf hwn wedi ei adlewyrchu mewn consensws proffesiynol eang:

“Maternity care is not just a delivery service, it makes a major contribution to family well being and wider public health and its contribution is yet to reach its full potential.” (RCM 2000)

4.3.5 Er hynny, fel gydag ymarfer ymwelwyr iechyd, mae'r llenyddiaeth yn galw am ddiffinio swyddogaeth iechyd cyhoeddus y fydwraig yn fwy eglur a mwy o gydnyddiaeth o gyfraniad bydwagedd ar lefel genedlaethol a gwleidyddol (Dunkley 2000; Edwards et al 2005; Garrod a Byrom 2007, McKay 2008).

4.3.6 Mae Edwards et al (2005) yn dadlau, er mwyn bod yn wir effeithiol yn eu swyddogaeth iechyd cyhoeddus, bod yn rhaid i fydwagedd fabwysiadu 'safiad radical ac agored ar iechyd' (tudalen 48). Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd o fodel meddygol o ofal sy'n canolbwyntio ar:

- Diagnosis a thriniaeth
- Canolbwyntio ar wasanaethau / arbenigwyr
- Gofal tameidiog

i fodel cymdeithasol o ofal sy'n canolbwyntio ar:

- Ddull cyfannol
- Yn rhoi'r fenyw/ y teulu yn y canol
- Penderfynyddion ehangach iechyd

4.3.7 I'r perwyl hwn, mae'r llenyddiaeth yn argymhell bod bydwagedd yn canolbwyntio eu hymdrechion ar sicrhau bod eu hymarfer yn cyd-fynd ag amcanion gwella iechyd cenedlaethol a lleol (Dunkley 2000; Edwards et al 2005; Garrod & Byrom 2007; McKay 2008); sefydlu cydweithrediad rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol a gwahanol asiantaethau (Edwards et al 2005; McKay 2008); ac integreiddio iechyd cyhoeddus i'r cwricwlwm (Bennett et al 2001; McKay 2008).

4.3.8 O gofio bod magu plant yn ddwyieithog yn fater iechyd cyhoeddus, mae'r holl ymdrechion hyn yn berthnasol o ran cymhathu neges Twf i waith iechyd cyhoeddus prif ffrwd bydwagedd.

4.4 Fframweithiau Iechyd Cyhoeddus

4.4.1 Mae nifer o ddulliau o hybu iechyd a diffinnir y rhain gan Ewles a Simnet (2003) fel:

- Meddygol/ataliol
- Newid ymddygiad
- Addysgol
- Grymuso

- Newid cymdeithasol

4.4.2 Mae ymwelwyr iechyd a bydwagedd yn mabwysiadu gwahanol fodolau fel sail ar gyfer arwain a gwerthuso eu hymarfer iechyd cyhoeddus. Mae ffigwr 2 yn dangos model hybu iechyd Beattie (1991), wedi ei adolygu gan Twinn (1993) ar gyfer ymarfer ymwelwyr iechyd a Piper (2005) ar gyfer ymarfer bydwagedd. Mae'n dangos pedwar paradeim y mae ymarferwyr yn eu defnyddio i lywio eu hymarfer: Cwnsela personol; perswadio iechyd; datblygu cymunedau a gweithredu deddfwriaethol. Mae swyddogaeth yr ymarferwr iechyd yn amrywio yn ôl y paradeim a fabwysiadwyd, fel a ganlyn:

- Cwnsela personol – hwylusydd grymuso
- Perswadio iechyd – asiant newid ymddygiad
- Datblygu cymunedol – hwylusydd grymuso cymunedol.
- Gweithredu deddfwriaethol – ymarferydd strategol

4.4.3 Ar sail y model hwn, canfyddir pedwar dull gweithredu gwahanol y gellid eu mabwysiadu er mwyn ymgorffori neges Twf i iechyd cyhoeddus:

- Grymuso rhieni i wneud dewisiadau ynghylch trosglwyddo iaith.
- Cyfleu neges Twf i ddarpar rieni
- Cymryd rhan mewn mentrau iaith yn y gymuned
- Targedu grwpiau blaenoriaeth


4.4.4 Mae Bryan et al (2009) yn dadlau bod yr holl fodolau o waith ymwelwyr iechyd yn tueddu i ganolbwyntio ar lefel neilltuol o ymyrryd heb fynd i'r afael â'r berthynas rhyngddynt. Mae'r awduron yn tynnu ar waith Bronfenbener (1979) i sefydlu model integreiddio (gweler Ffigwr 3) gyda phedair lefel neu system wahanol sydd yn symud yn bellach o'r unigolyn bob tro:

- Microsystem – system ryngweithiol ddiriaethol o weithgarwch fel y profir hi gan unigolyn ac sy'n cael effaith uniongyrchol ar yr unigolyn hwnnw e.e. mam-plentyn
- Mesosystem – cysylltiadau rhwng microsystemau, sy'n hybu datblygiad personol e.e. teulu estynedig
- Ecosystem – gosodiadau sy'n effeithio ar ficrosystemau, e.e. rhwydweithiau cymdeithasol
- Macrosystem – ffactorau diwylliannol, gwleidyddol a syniadol sy'n llunio microsystemau


Wrth weithio gydag aelodau teulu unigol ar lefel y ficrosystem, mae ymwelwyr iechyd yn gosod eu gwaith mewn modd sensitif o fewn macrosystem y teulu a'i chyfyngiadau ac yn mynd ati i gyfryngu rhwng y teulu a'r adnoddau posib yn yr ecosystem.

4.4.5 Ar sail y model hwn, mae lle i fydwragedd ac ymwelwyr iechyd weithio'n unigol gydag aelodau teulu, gan roi neges Twf yn ei chyd-destun yn sensitif a chan fynd ati i gyfryngu rhwng y teulu ac adnoddau iaith posib o fewn y gymuned.

Ffigwr 2: Ymgorffori neges Twf mewn fframwaith iechyd cyhoeddus (ar ôl Beattie 1991; Twinn 1991; a Piper 2005)



Ffigwr 3: Fframwaith integredig ar gyfer iechyd cyhoeddus (yn ôl Bronfenbrenner 1979)



5. Arolwg o Fudd-ddeiliaid

Fel rhan o'r project, cysylltwyd â 24 o fudd-ddeiliaid ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn cyfweiliad ffôn lled-ffurfiol a fyddai'n canolbwyntio ar safbwyntiau bydwagedd / ymwelwyr iechyd ynghylch eu cyfraniad at ledaenu neges Twf. Yna cysylltwyd â'r holl staff ar y ffôn i drefnu dyddiad cyfweiliad oedd yn gyfleus i'r ddwy ochr. Cytunodd 15 o staff (63%) i gael eu cyfweld a chynhaliwyd y cyfweiliadau hyn rhwng 13 Tachwedd 2009 a 4 Chwefror 2010 gan y ddau brif awdur (gweler Tabl 3 ac Atodiad 7). Roedd pob cyfweiliad yn para tua hanner awr ac yn cynnwys yr eitemau canlynol: pa mor gyfarwydd oeddent â Twf; gweithio gyda Twf; eu canfyddiadau o'u swyddogaeth; addysg a hyfforddiant; symud ymlaen. Roedd y cyfranwyr yn cynnwys swyddogion iechyd Twf; cyfarwyddwyr gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd; a chyfarwyddwyr cwrs rhaglenni addysg bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd yng Nghymru

Tabl 3: Cyfranwyr i'r arolwg o fudd-ddeiliaid

Grwp Budd-ddeiliaid	Nifer	Nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd	Canran
Swyddogion Iechyd Twf	2	2	100%
Cyfarwyddwyr Addysg Ymwelwyr Iechyd	4	3	75%
Cyfarwyddwyr Addysg Bydwreigiaeth	4	2	50%
Penaethiaid Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd	7	3	32%
Penaethiaid Gwasanaethau Bydwreigiaeth	7	5	71%
Cyfanswm	24	15	63%

Yn unol â'r dull Dadansoddi Fframwaith (Ritchie a Spencer 1994) archwiliwyd cynnwys nodiadau'r cyfweiliadau yn union ar ôl casglu'r data. Nodwyd syniadau allweddol a themâu oedd yn codi dro ar ôl tro a'u dosbarthu'n fframwaith newydd (Ffigwr 4). Mae'r drafodaeth isod yn cyfuno atebion y pum prif grwp o fudd-ddeiliaid.


Canfyddiadau

Mynegodd yr ymatebwyr eu barn yn eglur ynghylch prif-ffrydio neges Twf yn y gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd a goblygiadau hynny o ran addysg a hyfforddiant. Daeth y pum thema ganlynol i'r amlwg o ddata'r cyfweiliad:

- Canfyddiadau o Twf
- Cyfraniad ymarferwyr
- Pethau sy'n rhwystro ac yn hyrwyddo'r gwaith o ledaenu neges Twf
- Addysg gyn-gofrestru
- Hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus

Mae'r adran ganlynol yn trafod pob thema yn ei thro.

Ffigwr 4: Coeden categorïau themâu sy'n codi o'r arolwg o fudd-ddeiliaid



5.1. Canfyddiadau o Twf

- 5.1.1. Roedd yr holl ymatebwyr yn gyfarwydd â chynllun Twf, er i raddau amrywiol. Roedd y rhai hynny â'r ddealltwriaeth fwyaf yn gallu cadarnhau prif nodau'r cynllun, ei gynulleidfa darged a'i effaith posib. Ar y llaw arall, roedd y rhai oedd yn deall leiaf yn anghyfarwydd â phrif neges Twf a sut mae Twf yn targedu rhieni.
- 5.1.2. Roedd y gweithwyr iechyd proffesiynol oedd yn deall orau yn meddu ar ymrwymiad personol cryf i ddwyieithrwydd neu wedi gorfod ymwneud â lledaenu neges Twf fel ymarferwyr cymunedol
- 5.1.3. Barn yr unigolion hyn yw bod Twf yn ffordd o annog darpar rieni i fagu eu plant yn ddwyieithog a chael mynediad i addysg ddwyieithog; a hynny'n arwain at gyfleoedd gwell a mwy o fuddion iechyd.
- 5.1.4. Ymysg eraill sydd yn fwy petrus eu barn ar y cynllun, gwelwyd peth dryswch ynghylch neges a gweithgareddau Twf a chanfyddiad cyfeiliornus bod a wnelo Twf â hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym meysydd gofal iechyd mamolaeth a phlant.
- 5.1.5. O ran nodi dwyieithrwydd fel mater o bwys i iechyd cyhoeddus, roedd yr ymateb yn amrywiol. Er bod y rhan fwyaf o'r cyfranwyr wedi eu hargyhoeddi bod yna fanteision iechyd ynghlwm wrth ddwyieithrwydd, roedd y rhain yn gyfyngedig i raddau helaeth i'r unigolyn (neu'r teulu), megis datblygiad, hunaniaeth a chyrhaeddiad addysgol y plentyn. Ar y llaw arall, cyfaddefodd un ymatebwr nad oedd hi erioed wedi meddwl am y mater.

5.2. Cyfraniad ymarferwyr

- 5.2.1. Roedd y mwyafrif o benaethiaid gwasanaethau'n gyfarwydd â'r ffordd y mae eu staff yn cydweithio â Twf er mwyn lledaenu'r neges ymysg defnyddwyr gwasanaeth. Serch hynny, ac er ymdrechion parhaus gan Swyddogion Twf, ymddengys mai ychydig o gyswllt sydd rhyngddynt â penaethiaid gwasanaethau, gyda chyfarfodydd wedi eu trefnu'n flynyddol i roi'r newyddion diweddaraf am fentrau a datblygiadau.
- 5.2.2. Oherwydd nad oes swyddog Twf dynodedig mewn dau ranbarth, adroddir fod hyn yn lleihau mewnbwn gan Twf ac yn arwain at tipyn llai o gyfle i godi materion yn ymwneud â dwyieithrwydd gyda rhieni newydd.
- 5.2.3. Ymddengys eu bod yn cael mwy o hwyl ar drefnu cysylltiad uniongyrchol gyda phrif ymarferwyr, ac adroddir bod swyddogion Twf yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ymarferwyr. Cynigiwyd enghreifftiau eraill o swyddogion Twf yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi staff a gweithio mewn partneriaeth, megis cyd-drefnu digwyddiad cyhoeddus.
- 5.2.4. Ar lefel defnyddwyr gwasanaeth, adroddwyd bod swyddogion Twf yn cysylltu ag ymarferwyr i gyflenwi adnoddau Twf; a mynychu clinigau, sioeau teithiol cyn geni a sesiynau sgiliau rhieni i gysylltu'n uniongyrchol â rhieni newydd. Lle crëwyd cysylltiadau â swyddogion Twf, disgrifiwyd y rhain fel rhai 'cryf' a 'gwerthfawr'.
- 5.2.5. Mae'r cyfweiliadau gyda'r cyfarwyddwyr addysg yn cynnig darlun mwy pegynol, gyda rhai fel petaent yn gwbl anwybodus, hyd yn oed yn ddifater, ynghylch y ffordd y mae ymarferwyr yn cydweithio â Twf, ac eraill yn mynegi hyder cadarn yn eu gallu i gryfhau cysylltiadau ar draws y sefydliadau.
- 5.2.6. Er bod llawer o'r cyfranwyr yn adrodd eu bod yn cydweithio â swyddogion Twf ac yn lledaenu adnoddau, roedd nifer hefyd yn barod iawn i leisio barn ynghylch swyddogaeth bydwagedd ac ymwelwyr iechyd mewn cyfleu manteision dwyieithrwydd yn uniongyrchol i rieni newydd a darpar rieni.
- 5.2.7. Roedd yn amlwg bod llawer o ymarferwyr yn uniaethu â'r swyddogaeth hon er mwyn hwyluso datblygiad cymdeithasol ac addysgol y plentyn. Serch hynny, roedd ymatebwyr yn fwy cyndyn i ddweud bod dwyieithrwydd yn cael unrhyw effaith bellach ar iechyd a lles yn gyffredinol; ac roedd gwahaniaeth barn ynghylch agwedd iechyd cyhoeddus neges Twf.
- 5.2.8. Mae'n haws adnabod manteision dwyieithrwydd mewn rhanbarthau iaith lle ceir y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, lle gwelir bod dwyieithrwydd yn llesol i integreiddio cymunedau. Felly roedd ymatebwyr yn awyddus i nodi y gall canfyddiadau swyddogaeth amrywio yn ôl demograffeg.
- 5.2.9. Er bod ymchwil flaenorol yn awgrymu bod ymwelwyr iechyd yn fwy tebygol o gofleidio neges Twf fel rhan o'u swyddogaeth na bydwagedd (Irvine et al 2008), heriwyd y duedd hon gan lawer o'r ymatebwyr. Serch hynny, er bod rhai'n awgrymu y gall ymwelwyr iechyd fod mewn safle gwell i drafod dwyieithrwydd gyda rhieni, roedd eraill yn dadlau bod swyddogaeth bydwagedd yn allweddol bwysig fel pwynt cyswllt cyntaf i ddarpar rieni, ac, yn hynny o beth, fod cyfrifoldeb arnynt i blannu'r hadau.
- 5.2.10. Er bod llawer yn mynnu bod swyddogaeth bydwagedd wedi datblygu'n ddigonol i sicrhau'r effaith fwyaf, roedd eraill o'r farn y gellid gwneud mwy i ymgorffori neges Twf yng ngwaith pob dydd bydwagedd ac ymwelwyr iechyd.
- 5.2.11. Ymddengys mai bydwagedd ac ymwelwyr iechyd eu hunain sy'n gallu datblygu'r swyddogaeth, trwy gydnabod manteision dwyieithrwydd fel mater o bwys i iechyd cyhoeddus a thrwy ymwneud â mentrau unigol a chymunedol gan ddefnyddio dulliau amlbroffesiwn / amlasiantaeth.

5.3. Pethau sy'n rhwystro ac yn hyrwyddo'r gwaith o ledaenu neges Twf

- 5.3.1. Nodwyd bod llwythi gwaith trwm a blaenoriaethau cystadleuol yn rhwystr mawr i ledaenu neges Twf. Nododd llawer o'r cyfranwyr bod y rhain yn heriau go iawn i wasanaethau iechyd mamolaeth a phlant, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn plant a throsglwyddo llu o negeseuon iechyd cyhoeddus i rieni newydd, gan gynnwys manteision bwydo ar y fron, sgrinio cynnar a brechu.
- 5.3.2. Mae'n anorfod bod y blaenoriaethau cystadleuol hyn yn cael y lle blaenaf ac yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i fydwragedd ac ymwelwyr iechyd drosglwyddo neges Twf i rieni. Awgrymwyd hefyd y gallai unrhyw ymgais i wthio'r mater, yn enwedig yng nghyd-destun bydwagedd, arwain at ymateb a chanlyniadau negyddol.
- 5.3.3. Serch hynny, er y credir yn aml bod hyrwyddo dwyieithrwydd yn llai pwysig na negeseuon iechyd cyhoeddus cyffredin eraill, nododd ychydig o gyfranwyr y gellid gwella'r sefyllfa hon trwy ymgorffori neges Twf yn gadarn o fewn yr agenda iechyd cyhoeddus a chyflwyno llwybrau archwilio a mesurau deiliant eglur. Ym marn yr ymatebwyr hyn, mae llwyddiant Twf yn dibynnu ar ddull gweithredu ymarferol a chysylltu'r neges yn agosach â gwaith bob dydd bydwagedd ac ymwelwyr iechyd.
- 5.3.4. Un ffordd o gryfhau'r cysylltiad hwn yw trwy gydweithio'n agosach â swyddogion Twf, fel y soniwyd uchod. Serch hynny, mae'n amlwg bod hyn yn peri problemau mewn rhai rhanbarthau lle nad oes swyddogion Twf.
- 5.3.5. Dull arall yw trwy gyfrwng adnoddau gwybodaeth Twf. Adroddir bod y rhain yn boblogaidd ymysg bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Mae'r rhan fwyaf o bobl wrth eu bodd gyda'u diwyg a'u neges gryno, yn enwedig oherwydd eu bod yn cynnig sylfaen tystiolaeth sydd mor hanfodol i ymarfer presennol.
- 5.3.6. Serch hynny, mae'n amlwg nad yw'r adnoddau hyn ar gael i bawb ac mae diffyg mewnbwn cyfredol gan Twf ar draws dwy sir yn codi pryderon neilltuol ymysg y budd-ddeiliaid
- 5.3.7. Yn ogystal â hynny, oni chynigir hyfforddiant ffurfiol i ymarferwyr i gefnogi'r llenyddiaeth, mae ymatebwyr yn amheus i ba raddau y gall gweithwyr proffesiynol gofal iechyd gofleidio neu drosglwyddo neges Twf yn llawn.
- 5.3.8. Yn ôl penaethiaid gwasanaethau, mae cefnogi neges Twf yn dibynnu hefyd ar agweddau ymarferwyr. Er bod llawer yn honni bod eu staff yn gefnogol ac yn ymrwymedig i'r cynllun, soniodd eraill am agweddau negyddol, a beirniadaeth hallt ar Twf.
- 5.3.9. Oherwydd yr agweddau negyddol hyn a'r ffaith bod cymunedau'n gynyddol amlieithog, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai Twf yn elwa o ehangu ei neges i weddu i gymunedau unigol a chofleidio mathau eraill o ddwyieithrwydd.
- 5.3.10. Cafwyd cytundeb cyffredinol y gall fydwragedd ac ymwelwyr iechyd gyfrannu at ledaenu neges Twf beth bynnag yw eu cefndir iaith eu hunain. Serch hynny, er bod rhai o'r farn mai siaradwyr Cymraeg oedd y bobl fwyaf addas i siarad gyda rhieni am ddwyieithrwydd, dadleuai eraill bod rhai di-Gymraeg yn fwy awyddus i drosglwyddo'r neges na'u cydweithwyr oedd yn siarad Cymraeg.
- 5.3.11. Ymddengys bod ymarferwyr yn ymhél â neges Twf i raddau gwahanol ar draws y rhanbarthau, a bod ymarferwyr fel rheol yn mynd ati'n fwy brwd mewn cymunedau lle ceir y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Ar y llaw arall, roedd yn amlwg bod deuliaeth barn am hyn, a gweithwyr mewn rhanbarthau lle ceir y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn teimlo nad oedd angen eu hymdrechion ar y cyfan.
- 5.3.12. Er bod y mwyafrif o benaethiaid gwasanaeth yn fodlon ar y sefyllfa bresennol, galwai eraill am gyfarwyddyd cliriach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda strategaethau clinigol priodol a chyfleoedd i ymgorffori Twf mewn prosesau adolygu

parhaus, megis yr adolygiad o nyrsio cymunedol a gynhelir cyn hir. Gwnaed argymhellion pellach i ddefnyddio fforymau presennol i ddatblygu'r gwaith; codi proffil Twf ymysg mentoriaid SCPHN, grwpiau proffesiynol eraill a chyrrff proffesiynol; ymrwmo i gynllun Twf yng nghynlluniau Cymraeg byrddau iechyd; ac ymgorffori neges Twf yn rhaglenni addysg cyn gofrestru a hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus.

5.4. Addysg gyn-gofrestru

- 5.4.1. Adroddodd yr holl gyfarwyddwyr addysg bod Twf yn cyfrannu rhywfaint at y cwricwlwm bydwreigiaeth / ymwelwyr iechyd ond mae hyn yn gyfyngedig i gyflwyniad blynyddol gan un o swyddogion Twf.
- 5.4.2. Oherwydd y diffyg cyfarwyddiadau proffesiynol neu gan y llywodraeth i ymgorffori materion dwyieithrwydd yn y cwricwlwm, gadewir penderfyniadau ynghylch ymgorffori neges Twf mewn addysgu a dysgu i gyfarwyddwyr cwrs ac arweinwyr modiwl unigol. Felly mae'r trefniant hwn yn gorfod dibynnu'n helaeth ar ewyllys da darlithwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gael mynediad at fyfyrwyr.
- 5.4.3. Mae'r sesiynau hyn, sy'n rhedeg ers hyd at bum mlynedd mewn rhai sefydliadau addysg uwch, yn defnyddio adnoddau Twf i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar fanteision dwyieithrwydd ar lefel unigolion/teuluoedd. Maent yn canolbwyntio'n bennaf felly ar ddatblygiad a chyrrhaeddiad addysgol y plentyn, heb gyfeirio fawr ddim neu ddim o gwbl at swyddogaeth datblygu cymunedol ymarferwyr.
- 5.4.4. Er bod y mewnbwn hwn gan Twf wedi ei gynnwys fel rheol o fewn modiwl iechyd cyhoeddus y cwricwlwm, mae'n ychwanegol yn hytrach nag yn greiddiol i'r modiwl ac felly nid yw wedi ei ymgorffori yn neilliannau dysgu'r cwrs na'r protocol asesu. Ar ben hynny, gan mai swyddog Twf sy'n cyflwyno'r neges, a dealltwriaeth hwnnw neu honno o'r cwricwlwm yn gyfyngedig, ni sefydlir cysylltiadau ffurfiol rhwng neges Twf ac iechyd cyhoeddus.
- 5.4.5. Serch hynny, ar y cyfan mae'r mewnbwn hwn wedi cael gwerthusiad da ac mae'r staff yn cynnig tystiolaeth anffurfiol sy'n awgrymu bod y myfyrwyr yn cofleidio neges Twf ac yn codi ei phwysigrwydd wrth ymarfer.
- 5.4.6. O gofio am y pwyslais cynyddol ar swyddogaeth iechyd cyhoeddus bydwreagedd ac ymwelwyr iechyd yn arbennig, ynghyd â'r ffaith yr ail-ddilysir rhaglenni cyn-gofrestru cyn hir, mynegodd ymatebwyr eu hymrwymiad i ymgorffori neges Twf yn fwy amlwg yn y cwricwlwm newydd trwy'r agenda iechyd cyhoeddus. Er bod y dull hwn yn cael ei gyfrif yn ffordd bosib o symud ymlaen ar draws nifer o Sefydliadau Addysg Uwch, mae angen gwneud mwy o waith i ymgorffori neges Twf mewn gwaith datblygu cymunedol a goresgyn galwadau eraill ar y cwricwlwm.

5.5. Hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus

- 5.5.1. Er bod tystiolaeth mewn rhai rhanbarthau bod neges Twf yn cael ei hymgorffori mewn hyfforddiant DPP, awgrymodd ymatebwyr y byddai angen ymdrechion pellach a gorchymyn gan yr NMC neu LICC er mwyn mabwysiadu'r neges yn gyffredinol.
- 5.5.2. Dadleuir yn ogystal bod angen i hyfforddiant o'r fath gael ei gyflwyno gan gorff academaidd hygred.

6. Adolygiad Cwricwlwm

Cefndir

Ar ôl cyfweled penaethiaid addysg ymwelwyr iechyd gwelwyd bod y cyfranwyr yn hollol argyhoeddedig bod iechyd cyhoeddus yn elfen graidd yng ngwaith ymwelwyr iechyd. Yn wir, mae'r argyhoeddiad hwn yn amlwg yn Safonau Hyfedredd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Arbenigol (2004) ac ym Meincnodau Pwnc y QAA (2001) ar gyfer Ymwelwyr Iechyd.

Er bod gwahaniaeth barn rhwng y rhai a gafodd gyfweiliad ynghylch y berthynas rhwng neges Twf ac iechyd cyhoeddus, rydym wedi creu achos cryf iawn bod neges Twf yn neges iechyd cyhoeddus go iawn (Tranter et al 2010) ac felly y dylai fod yn nodwedd o gwricwlwm ymwelwyr iechyd.

Dulliau

Yn yr astudiaeth hon, ein bwriad yw craffu ar ddogfennau cwricwlwm pob rhaglen ymwelwyr iechyd yng Nghymru, er mwyn canfod meysydd lle mae neges Twf naill ai wedi ei chanfod yn y ddogfen neu fod posiblwydd i neges Twf gael ei hymgorffori yn y rhaglenni. Felly gwahoddwyd penaethiaid rhaglenni ymwelwyr iechyd yng Nghymru i anfon eu dogfennau cwricwlwm at y tîm ymchwil. Estynnwyd gwahoddiadau ar lafar naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ac anfonwyd ceisiadau a negeseuon atgoffa ar e-bost i ddilyn. O'r pedair rhaglen sy'n rhedeg yng Nghymru, cafwyd ymatebion cadarnhaol gan ddau o'r arweinwyr rhaglen, y naill yng Ngogledd Cymru a'r llall yn y De. Er bod yr ymateb hwn yn un siomedig, mae'r adolygiad o'r dogfennau'n cynnig canfyddiadau sy'n berthnasol ar draws Cymru gan fod yn rhaid i bob rhaglen gydymffurfio â safonau NMC (2004) a golyga hyn fod cyfatebiaeth rhwng y rhaglenni a gyflwynir ar draws Cymru.

Yn y rhan gyntaf o'r adolygiad o'r dogfennau aethpwyd ati i ymgyfarwyddo â'r cwricwla er mwyn gallu canfod y modiwlau craidd, arbenigol a dewisol a oedd yn rhan o'r rhaglen. Wedyn edrychwyd ar yr amlinelliadau o'r modiwlau er mwyn canfod y deilliannau dysgu allweddol, y cynnwys dangosol a'r dulliau asesu a gweld a oedd neges Twf i'w gweld yn amlwg yn y dogfennau. Yn olaf archwiliwyd y dogfennau er mwyn gweld sut yr oeddent yn cyfateb i safonau NMC, a datganiadau meincnod pwnc QAA ar gyfer rhaglenni ymwelwyr iechyd. Wedyn archwiliwyd y dogfennau allweddol hyn er mwyn canfod y safonau hynny oedd yn cynnig agoriad ar gyfer cyflwyno neges Twf i'r rhaglen ymwelwyr iechyd.

6.1. Dogfennau Cwricwlwm

6.1.1. Fel y gellid disgwyl, wrth wraidd cwricwlwm ymwelwyr iechyd ceir egwyddorion nyrsio iechyd cyhoeddus, mynd i'r afael â materion megis polisi ac ymarfer iechyd cyhoeddus, hyrwyddo iechyd ac addysg iechyd ac asesu anghenion iechyd. Roedd y materion hyn yn ymddangos naill ai fel modiwlau ar wahân neu fel rhan o wahanol ddeilliannau dysgu modiwlau ac fe'u trafodwyd yn y strategaeth asesu.

- 6.1.2. Serch hynny, *ni chyfeiriwyd at Twf yn y deilliannau dysgu na'r strategaethau asesu* a chan nad oedd cynnwys dangosol modiwlau yn rhan o'r dogfennau ni allwn ddweud a oedd Twf yn nodwedd ar y lefel hon ai peidio.
- 6.1.3. Gan nad oedd unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at Twf yn y dogfennau oedd ar gael ac o ystyried y ffaith bod yn rhaid i'r holl raglenni ymwelwyr iechyd gwrdd â safonau NMC a datganiadau meincnod pwnc QAA ar gyfer rhaglenni ymwelwyr iechyd, aethpwyd ati i fapio'r safonau ar neges Twf er mwyn amlygu'r posibilrwydd o ymgorffori Twf yn y cwricwlwm a chyflwynir hyn yn Atodiad 4.

7. Adolygiad Safonau Gwasanaeth

7.1. Cynnwys Amcanion Twf yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004)

- 7.1.1. Ar 2 Chwefror 2010 cynhaliwyd cyfarfod gydag Ann Noyes, Pennaeth Cangen Iechyd a Lles Plant yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, i drafod y posibilïadau ar gyfer ymgorffori amcanion Twf yn y FfGC ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth (Llywodraeth y Cynulliad 2004). Cyflwynwyd papur gan Gwerfyl Roberts, yn amlinellu cynnig ar gyfer y ffordd ymlaen (gweler Atodiad 5).
- 7.1.2. Wedi trafodaeth, cytunwyd mewn egwyddor â'r cynnig drafft a amlinellwyd yn Atodiad 5. Cytunodd Ann Noyes i gyflwyno'r papur i grwp ymgynghori'r project yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf a threfnu cyfarfod pellach o fewn 6 wythnos.
- 7.1.3. Cafwyd trafodaethau pellach ar yr angen am ddatganiad generig yn yr adran ragarweiniol i gynnwys ymrwymiad y llywodraeth i ddwyieithrwydd, fel yr eglurir yn y ddogfen Cymru'n Un. Cytunwyd y dylai'r Uned Iaith Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynghori ar hyn.
- 7.1.4. Cynhaliwyd cyfarfod pellach gydag Ann Noyes ar 17 Mawrth 2010 a chytunwyd ar ymgorffori prif argymhellion y cynnig ym Mhennod 2 y FfGC, Y Camau Allweddol sy'n Gyffredin i Bob Plentyn. Esboniwyd y bydd angen manylu ar y geiriad er mwyn sicrhau safon fesuradwy.
- 7.1.5. Disgwylir y bydd modd monitro cynnydd drwy fecanwaith yr adroddiadau blynyddol.

7.2. Cynnwys Amcanion Twf yn y Canllawiau Technegol ar gyfer y Safonau Gofal (2010)

- 7.2.1. Ar 25 Ionawr 2010 cafwyd trafodaeth ar y ffôn gyda Wendy Morgan, Rheolwr Project, Safonau Gofal Iechyd Cymru, ar gynnwys neges Twf yn y Canllawiau Technegol ar gyfer Safon 3 : Gwella Iechyd a Hybu'r Safonau Gofal (Llywodraeth y Cynulliad 2010).
- 7.2.2. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu templed ar gyfer y canllawiau ategol i'r safonau. Ceir dau dempled – canllaw generig a chanllaw ar gyfer pob safon unigol. Caiff y wybodaeth ategol allweddol ei llwytho i e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru a chaiff cysylltiadau eu creu i arwain pobl at wybodaeth bellach berthnasol. www.nhswalesgovernance.com.
- 7.2.3. Rhagwelir y gellid cyfeirio at neges Twf yn y canllaw unigol ar gyfer Safon 3: Gwella a Hybu Iechyd; a darparu cysylltiadau o e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru i wefan Twf.

8. Fframwaith Strategol ar gyfer prif ffrydio neges Twf i waith bydwagedd ac ymwelwyr iechedd.

Yn unol â'r dull gweithredu dadansoddiadol a amlinellir yn Ffigwr 1 ac yn wyneb y dystiolaeth newydd, ystyriwyd yn eu tro gryfderau a gwendidau dulliau presennol o brif ffrydio neges Twf i waith bydwagedd ac ymwelwyr iechedd. Ar y sail hon, cynigir deg cam gweithredu i hyrwyddo datblygiadau mewn ymarfer ac addysg. Fe'u hamlinellir yn Nhabl 4.

Tabl 4: Fframwaith Strategol ar gyfer prif ffrydio neges Twf i waith bydwagedd ac ymwelwyr iechyd.

Cryfderau Presennol	Gwendidau Presennol	Camau Gweithredu Arfaethedig	Targed
1. Ymwybyddiaeth gynyddol o'r manteision i iechyd a ddaw yn sgil dwyieithrwydd	Manteision dwyieithrwydd i iechyd cyhoeddus yn cael eu canfod ar lefel unigolion i raddau helaeth	Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith gadarnhaol dwyieithrwydd ar benderfynyddion iechyd ehangach	LICC, Sefydliadau AU, Byrddau Iechyd
2. Pwyslais cryf ar iechyd cyhoeddus ym mholisi'r gwasanaeth iechyd	Gwrthdaro rhwng gwaith iechyd cyhoeddus ar lefel unigolion a'r gymuned	Hyrwyddo neges Twf fel mater o bwys i iechyd cyhoeddus ar lefel unigolion a chymunedau	LICC, Sefydliadau AU, Byrddau Iechyd
3. Swyddogaeth gynyddol bydwagedd ac ymwelwyr iechyd ym maes iechyd cyhoeddus	Llwythi gwaith trwm a blaenoriaethau cystadleuol yn rhwystro gwaith iechyd cyhoeddus	Creu cyswllt agos rhwng gwaith Twf a fframweithiau iechyd cyhoeddus	LICC, Sefydliadau AU, Byrddau Iechyd
4. Ymarferwyr yn gyfarwydd â chynllun Twf	Camddealltwriaeth ynghylch cynllun Twf	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun Twf trwy hyfforddiant DPP gorfodol	LICC, Byrddau Iechyd
5. Stoc o adnoddau Twf sydd ar gael yn rhwydd	Diffyg mewnbwn gan Twf mewn rhanbarthau penodol	Lledaenu adnoddau Twf i bob man	Twf, Byrddau Iechyd
6. Ymrwymiad ymarferwyr i brif ffrydio neges Twf	Deuoliaeth barn ynghylch prif ffrydio neges Twf	Sefydlu cyfarwyddeb ymarfer i brif-ffrydio neges Twf i waith iechyd cyhoeddus bydwagedd ac ymwelwyr iechyd	LICC, Byrddau Iechyd
7. Cydweithredu rhagweithiol rhwng swyddogion Twf a phrif ymarferwyr	Yn dibynnu ar ewyllys da unigolion	Dynodi swyddogaeth Twf ar gyfer prif ymarferwyr penodol	LICC, Byrddau Iechyd
8. Ymarferwyr ymrwymedig yn mynd ati i ledaenu neges Twf	Dim strategaethau lleol i deilwra neges Twf at gymunedau lleol	Ymarferydd dynodedig i weithio gyda Twf i greu strategaethau lleol i deilwra neges Twf i adlewyrchu proffiliau iaith cymunedau	Byrddau Iechyd, Twf
9. Swyddogion Twf yn cyflwyno cynllun Twf bob blwyddyn mewn rhaglenni bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd ar draws Cymru	Mewnbwn presennol i Twf yn dibynnu ar ewyllys da Sefydliadau Addysg Uwch	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun Twf trwy hyfforddiant gorfodol mewn rhaglenni bydwreigiaeth ac ymweld iechyd	Cyngor, Sefydliadau AU
